**$13^{eg}$ Cyfarfod Is-grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru**
**Dydd Iau 28 Medi 2017**
**Ystafelloedd Cynadledda C+D, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd**
**Cofnodion**

---

## AELODAU

### Llywodraeth Cymru

Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol – Cadeirydd

### Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Y Cyng. Debbie Wilcox, Arweinydd CLlLC (Casnewydd)
Y Cyng. Aaron Shotton, Dirprwy Arweinydd CLlLC (Sir y Fflint)
Y Cyng. Anthony Hunt, Llefarydd Cyllid CLlLC (Torfaen)
Y Cyng. Andrew Morgan, Swyddog Llywyddu CLlLC (Rhondda Cynon Taf)
Y Cyng. Paul Miller (Sir Benfro)
Y Cyng. Peter Fox OBE (Sir Fynwy)
Y Cyng. Mark Pritchard (Wrecsam)
Y Cyng. Dyfrig Lewis Siencyn, (Gwynedd)

## YN BRESENNOL

### Swyddogion Llywodraeth Cymru

Reg Kilpatrick – Cyfarwyddwr, Llywodraeth Leol
Debra Carter – Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyllid Strategol Llywodraeth Leol
Rob Hay – Pennaeth Polisi Cyllid Llywodraeth Leol
Simon Edwards – Polisi Cyllid Llywodraeth Leol

### Swyddogion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Steve Thomas – Prif Weithredwr, CLlLC
Jon Rae – Cyfarwyddwr Adnoddau, CLlLC
Steve Jones – Merthyr Tudful (Prif Swyddog Cyllid), Cadeirydd, Cymdeithas Trysoryddion Cymru

### Comisiynwyr Heddlu a Throseddu

Geoff Petty – Prif Swyddog Cyllid, Comisiwn Heddlu a Throseddu De Cymru (ar ran Alun Michael)

## YMDDIHEURIADAU

Y Gwir Anrh. Alun Michael – Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru

**Eitem 1 ar yr Agenda: Croeso a chyflwyniadau**

1. Croesawodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol (Ysgrifennydd y Cabinet) yr aelodau i 13eg cyfarfod yr Is-grŵp Cyllid, gan nodi'r newyddion trist ynghylch marwolaeth y Cyng. Janice Dudley a oedd wedi mynychu'r grŵp hwn fel cynrychiolydd yr awdurdodau tân ac achub.

**Eitem 2 ar yr Agenda: Cofnodion a Materion sy'n codi o'r cyfarfod blaenorol (Papur 1)**

2. Cytunwyd i dderbyn cofnodion y cyfarfod diwethaf fel gwir gofnod. Roedd un Cam Gweithredu wedi codi o'r cyfarfod: Paragraff 22 – CLlLC a swyddogion Llywodraeth Cymru i ystyried sut y gellid gwella'r modd y mae aelodau'r Is-grŵp Cyllid, ac arweinwyr llywodraeth leol yn ehangach, yn cael gwybod am waith yr Is-grŵp Dosbarthu. Ymdrinnir â'r mater hwn o dan eitem pedwar ar yr agenda.

**Eitem 3 ar yr Agenda: Llythyr CLlLC at y Prif Weinidog ynghylch Cyllideb Llywodraeth Cymru**

3. Disgrifiodd Ysgrifennydd y Cabinet ei gynlluniau ar gyfer cyhoeddi Cyllideb Llywodraeth Cymru a'r setliad llywodraeth leol ar gyfer 2018-19, a gwahoddodd y Cyng. Wilcox i gyflwyno llythyr gan CLlLC at y Prif Weinidog ynghylch Cyllideb Llywodraeth Cymru. Mynegodd aelodau'r Is-grŵp Cyllid y pryderon sydd ganddynt mewn nifer o feysydd, yn bennaf y meysydd hynny sy'n ymwneud â sut mae toriadau yng nghyllid llywodraeth leol yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau statudol.

**Eitem 4 ar yr Agenda: Golwg Gyffredinol ar Waith yr Is-grŵp Dosbarthu**

4. Rhoddodd Rob Hay a Jon Rae olwg gyffredinol ar waith yr Is-grŵp Dosbarthu, gan gynnwys rhaglen waith yr Is-grŵp ar gyfer y dyfodol.

   **Cam gweithredu: Aelodau'r Is-grŵp Cyllid i ystyried ymhellach yr eitemau a nodir yn yr adran ar raglen waith y dyfodol yn y papur, ac i adlewyrchu barn ehangach llywodraeth leol yng nghyfarfod mis Ionawr.**

**Eitem 5 ar yr Agenda: Adroddiad yr Is-grŵp Dosbarthu**

5. Rhoddodd Rob Hay drosolwg o adroddiad yr Is-grŵp Dosbarthu, gan gynnwys argymhellion y grŵp i'w gweithredu yn setliad 2018-19. Cymeradwyodd y grŵp yr adroddiad a diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet i'r Is-grŵp Dosbarthu am ei waith ar hyd y flwyddyn.

**Eitem 6 ar yr Agenda: Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (Diweddariad Llafar)**

6. Rhoddodd Geoff Petty ddiweddariad ar yr ystyriaethau ariannol sy'n ymwneud â Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu.

**Eitem 7 ar yr Agenda: Unrhyw Fater Arall**

7. Gofynnodd y Cyng. Hunt a fyddai'n bosibl cynnal cyfarfod pellach rhwng cyhoeddi cyllideb yr hydref Llywodraeth y DU ar 22 Tachwedd a'r fersiwn derfynol o'r gyllideb ddrafft ar 19 Rhagfyr.

**Cam gweithredu: Ymchwilio i'r posibilrwydd o gynnal cyfarfod arall rhwng cyhoeddi cyllideb yr hydref Llywodraeth y DU ar 22 Tachwedd a'r fersiwn derfynol o'r gyllideb ddrafft ar 19 Rhagfyr.**